

Adnodd 3: Marc Treanor – Artist y Tir

Artist y tir sydd wrth ei fodd gyda'r traeth a'r môr yw Marc Treanor. Mae'n gwneud ei ddarluniau tywod mawr ar draethau ar lanw isel, oddeutu awr cyn i'r môr gyrraedd i'w chwalu. Dywed Marc mai byrhoedledd yw thema ei waith

Mae'n defnyddio rhaff a darn o bren i wneud yr amlinelliad ac yna'n arlliwio'r patrymau drwy grafu'r tywod. Y gwrthgyferbyniad rhwng y tywod wedi'i grafu a heb ei grafu sy'n creu'r llun.

Yn aml, mae'r cylchoedd tywod yn seiliedig ar batrymau ym myd natur. Cyn iddo fynd allan i ddarlunio ar y tywod, mae Marc yn darlunio'r patrwm ar bapur o leiaf unwaith.

Mae'r cylchoedd tywod rhwng 20 a 60 metr o led a gallant gymryd hyd at bedair awr i'w cwblhau.

Mae Marc yn hoffi'r ffaith bod y gwaith yn waith dros dro neu'n fyrhoedlog ac yn mwynhau gweld ymateb pobl i'w waith celf. Maent yn aml yn meddwl ei fod yn rhyfeddol.

Dechreuodd Mark greu cylchoedd tywod ar draethau Gogledd Cernyw yn 2009. Roedd ganddo ddi-ddordeb mewn cylchoedd cynydau ac roedd am greu rhywbeth i'w blant ei wneud ar eu gwyliau. Ers hynny mae wedi gweithio ar draethau De-orllewin Cymru. Yn Sir Benfro, mae llawer o draethau tywod bach sy'n dda ar gyfer dangos ei waith.

Mae'n aml yn creu ffotograffau o'r cylchoedd tywod. Mae'r ffrâm a'r dirwedd o'i hamgylch yn rhoi haen arall i'w waith celf. Mae'n gwneud sioeau sleidiau hefyd - gyda lluniau llonydd neu symudol a cherddoriaeth. Er mwyn ffilmio'r gweithiau celf yn datblygu yn y tywod, mae weithiau'n defnyddio ffotograffiaeth treigl amser.

Mae ei ffotograffau wedi cael eu harddangos a'u gwerthu mewn orielau yng Nghymru.

Mae'n cynnal gweithdai ar y traeth ac mae pobl yn ei gomisiynu i wneud gwaith celf yn y tywod. Mae hyd yn oed wedi defnyddio ei gelf tywod i helpu rhywun i ofyn i'w gymar ei briodi!

Yn 2015 fe'i comisiynwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i wneud map o'r DU ar raddfa fawr yn Nhwyni Tywod Whiteford ar Benrhyn Gŵyr i ddathlu 50 mlynedd ers cychwyn prosiect Neptune yr Ymddiriedolaeth.

Mae ei waith wedi bod ar BBC Wales, mewn papurau fel The Independent a'r Western Mail, ac mewn cylchgronau.

I weld ei waith, ewch i www.sandcircles.co.uk